# Mewnosod rhwyll yn y goden yn endofasgwlaidd er mwyn tarfu ar lif y gwaed at ddibenion trin aniwryswm mewngreuanol

14 Awst 2019

Mae'r driniaeth hon yn gweithio'n dda ar gyfer aniwrysmau mewngreuanol ac nid oes unrhyw bryderon difrifol ynglŷn â pha mor ddiogel ydyw.

Chwydd mewn pibell waed yn yr ymennydd a achosir gan wendid yn wal y bibell waed yw aniwryswm mewngreuanol. Yn y driniaeth hon, gosodir rhwyll drwy diwb tenau (cathetr) yn yr ymennydd drwy bibell waed fawr (hynny yw, yn endofasgwlaidd) yn y werddyr. Caiff ei llywio i mewn i goden yr aniwrysm. Gadewir y ddyfais yno ac mae'n gweithredu fel plwg pan fydd gwaed yn ceulo y tu mewn iddi. Y nod yw rhwystro llif y gwaed i'r aniwrysm er mwyn lleihau'r posibilrwydd y bydd yn rhwygo neu atal aniwrysm sydd eisoes wedi rhwygo rhag gwaedu ymhellach.

Gall gwefan y GIG fod yn lle da i gael gwybod mwy. Mae gan arweiniad IechydTech NICE fwy o wybodaeth am driniaethau a sut rydym yn eu hasesu.

## A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Os cawsoch gynnig y driniaeth hon, dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol drafod yr hyn y mae'n ei olygu, a dweud wrthych am y risgiau a'r manteision. Dylent drafod eich opsiynau gyda chi, a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Dylai hyn oll ddigwydd cyn y byddwch yn cytuno (rhoi cydsyniad) i gael y driniaeth. Dylech hefyd gael gwybod sut i gael rhagor o wybodaeth am y driniaeth. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

## Rhai cwestiynau i feddwl amdanynt

- Beth yn union yw'r driniaeth hon?



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.

- Beth yw'r manteision posibl? Pa mor debygol ydw i o'u cael?



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.

- Beth yw'r risgiau neu'r sgil-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio neu os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

ISBN 978-1-4731-7987-5



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.